# Yr her:

Rydym ni mewn argyfwng byd-eang ond yn lwcus o'r bobl pwysig/allweddol sydd yma i'n helpu. Pwy yw'r bobl pwysig yma sydd o hyd yn barod i'n helpu? Beth am gasglu gwybodaeth a ffeithiau amdanynt?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Sawl swydd allweddol sydd?
- Beth yw'r swyddi yma?
- Pa un hoffech chi fod?
- Beth maent yn gwisgo?
- Oes aelod o'r teulu â swydd allweddol?

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Cymru (Meithrin & Derbyn)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Adnabod llythrennau wyddor<br>• Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor<br>• Ymarfer ffurfio enw<br>• Darllen yn reolaidd– darllen a gwrando ar storïau.<br>• Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi | • Ymarfer adnabod rhifau<br>• Ymarfer ffurfio rhifau<br>• Adrodd rhifau yn eu trefn – ymlaen ac yn ôl<br>• Adio a thynnu ymarferol | • Joe Wicks  - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb<br>• Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Darllenwch y stori 'Charlie the firefighter'/Sam Tân a trafodwch beth ddigwyddodd, y cymeriadau ag ati. Pwy oedd eich hoff gymeriad? Beth oedd eich hoff rhan a pham? | Dewisiwch un weithiwr allweddol. Crëwch fodel 2D/3D o gerbyd y person hynny e.e. injan dân, tractor, cwch achub, ambiwlans, fan post, lori sbwriel, fan archfarchnad ayyb. | Dewisiwch eich hoff weithiwr allweddol. Oes wisg ffansi gyda chi? Beth am chwarae rôl y gweithiwr allweddol yma? Beth am gynnwys aelodau o'ch teulu wrth chwarae rôl? |
| Beth am greu bathodyn gwahanol rolau aelodau'r teulu? Gallwch ysgrifennu'r rôl neu tynnu llun e.e. nyrs, plismon, doctor ayyb. | Mewn argyfwng, rhaid ffonio 999! Ydych chi'n gallu chwilio am 9 peth o amgylch y tŷ/tu allan? Ydych chi'n gallu meddwl am rifau sy'n llai/neu fwy 'na 9? Gallwch chi ffurfio'r rhif 9? Beth am greu bondiau i 9? | Canwch cân 'Pobl sy'n helpu'/'Cân Diolch' ar Cyw. Recordiwch eich hun yn ei pherfformio! Ydych chi'n cofio'r arwydd am ddiolch? |
| Meddyliwch am restr o bethau gallwch chi wneud i helpu o amgylch y cartref e.e. gwneud y gwely, golchi'r llestri, rhoi bwyd i'r ci/cath/bochdew! | Beth am agor siop eich hunan e.e. siop flodau/siop fwyd? Defnyddiwch ddarnau arian hyd at 10c/20c i brynu cynnyrch yn y siop. | Ewch ati i greu cwch achub gan ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau naturiol/ailgylchu. Ydy'r cwch yn gallu arnofio? Neu ydy e'n suddo? Tynnwch luniau o'r cwch gyda phapur a phensil neu ar ipad/ffôn. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO | Minecraft | Dawnsio gyda Oti Mabuse |

| | | |
|---|---|---|
| Llyfrau sain David Walliams | Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg | PBSkids.org - Gemau Darllen i blant |
| Newsround – darllen y newyddio diweddaraf | Carol Vorderman – 'My Maths School' | BBC Bitesize |
| ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp | Cip ar Fathemateg | Hour of Code |
| Science experiment | SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook | Gwefan TopMarks Mathemateg |
| Science Investigations – STEM website stemsational.com | Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp | Gwefan MathsFrame Mathemateg |
| Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS | Orielodl – fideo cam wrth gam | mathsalamanders.com |
| | Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p | Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb |
| | Llifo'n Llawen – Yoga | Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp |
| Zumba Kids | Just Dance – 'Youtube' | Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube |